Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion cyfarfod Eithriadol y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus
ar 15 Chwefror 2022 trwy Zoom

Yn Bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
John Cunliffe	Aelodau Annibynnol
John Gallanders	Aelodau Annibynnol
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Jaqueline Hughes	Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol
Helen Stephens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau/Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Linda Tomos	Aelodau Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr

Hefyd yn Bresennol:

Gareth Evans	Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Therapi, Therapïau a Gwyddor Iechyd
Jodie Evans	
John Morrell	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(ar gyfer ffrydio byw)* Uwch Beiriannydd Gweinydd a Seilwaith Cwmwl, Gwybodeg *(ar gyfer cymorth technegol)*
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Materion Corfforaethol *(cofnodi)*
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol *(ar gyfer ffrydio byw)*
Claire Wilkinson	Dirprwy Gyfarwyddwr - Gweithlu Gweithredol, Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Eitem ar yr Agenda **Cam Gweithredu**	
22/48 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd **22.48.1** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.	
22/49 Ymddiheuriadau am Absenoldeb **22.49.1** Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Nichola Callow, Cheryl Carlisle, Morwena Edwards, Sue Green, Gill Harris, Sue Hill, Adrian Thomas.	

22/50 Datganiadau o Fuddiant **22/50.1** Ni ddatgelwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	
22/51 Gwasanaethau Fasgwlaidd **22/51.1** Agorodd y Cadeirydd y trafodaethau drwy fynegi ei bryderon sylweddol yng ngoleuni'r ddau adroddiad a luniwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS). Dywedodd fod y Bwrdd, ers y newid i'r model gwasanaeth, wedi ceisio sicrwydd ar sawl pwynt ynghylch gweithredu'r model gwasanaeth newydd ac ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Nodwyd bod nifer o swyddogion wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar yr adegau hynny ar y materion hyn. **22/51.2** Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn 2020 wedi cyfarwyddo y dylid cynnal adolygiad annibynnol o wasanaethau fasgwlaidd. Roedd hyn yn dilyn cwblhau adolygiad mewnol nad oedd yn dderbyniol i'r Bwrdd gan nad oedd yn bodloni disgwyliad annibyniaeth y Bwrdd nac yn cael ei ystyried yn ddigon cynhwysfawr. O ganlyniad, mae pryderon wedi cynyddu yn hytrach na'u lleddfu, wedi'u hatgyfnerthu gan y gwaith ymgysylltu â chleifion a'r adroddiad adborth a gyflwynwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC). Arweiniodd hyn at gyfarwyddyd y Bwrdd Iechyd i gynnal adolygiad pellach a gwirioneddol annibynnol, a gofynnwyd i'r RCS wneud hyn. **22/51.3** Dywedodd y Cadeirydd fod y ddau adroddiad gan RCS ac ystod a lefel y pryderon a amlygwyd ganddynt, yn dangos yn bendant bod y Bwrdd ac eraill yn iawn i boeni ac yn dangos diffygion a methiannau sylweddol sy'n gwbl annerbyniol. Nodwyd yn ogystal ag ystyried yr ymatebion uniongyrchol i'r adroddiadau a'u hargymhellion bod angen dybryd i: • Weithredu ar frys ym mhob mater sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwn • Penderfynu a oes niwed wedi'i achosi a/neu'n parhau i gael ei achosi i gleifion • Ail-edrych ar ansawdd a diogelwch yr holl wasanaethau a phenderfynu a ddylai rhai gwasanaethau gael eu darparu gan wasanaeth fasgwlaidd y tu allan i Ogledd Cymru • Ystyried a ddylid atal unrhyw agweddau ar y gwasanaeth • Archwilio ar ba sail y ceisiodd nifer o bobl dawelu meddwl y Bwrdd • Archwilio a yw rhai o'r methiannau a amlygwyd – e.e. ym meysydd caniatâd gwybodus, cadw cofnodion clinigol a gwaith tîm amlddisgyblaethol i'w cael mewn meysydd gwasanaeth eraill ar draws y Bwrdd Iechyd • Gwella'r llinell weledigaeth rhwng y pwynt darparu gwasanaeth, y tîm Gweithredol ac uwch reolwyr ac ymlaen i'r Bwrdd **22/51.4** Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gwybod bod y Prif Weithredwr a'i thîm, yn enwedig y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol newydd, yn rhannu'r pryderon sylweddol sydd gan y Bwrdd ehangach. Gwahoddodd hwy i rannu eu sylwadau eu hunain a'r ymateb arfaethedig i ddau adroddiad RCS.	

22/51.5 Cydnabu'r Prif Weithredwr ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau fasgwlaidd fel yr amlygwyd gan gomisiynu adolygiad RCS. Atgoffodd y Prif Weithredwr ei gydweithwyr fod rhan gyntaf yr adroddiad wedi dod i law yn 2021 a bod ail ran yr adroddiad yn cael ei hystyried yn y cyfarfod heddiw. Amlygwyd bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad yn llawn ac yn ailadrodd ei ymrwymiad i ddysgu a gwella gwasanaethau fasgwlaidd. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr i'r cleifion a'u teuluoedd, cydweithwyr y Bwrdd, y CIC a Llywodraeth Cymru (LlC) am yr amser yr oedd wedi'i gymryd i roi'r rhwydwaith fasgwlaidd ar waith yng Ngogledd Cymru, ac ymrwymodd i roi'r cynllun gwella ar waith y mae'r Bwrdd Gweithredol Meddygol wedi ymrwymo iddo. Byddai'r Cyfarwyddwr yn trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod. **22/51.6** Dywedodd y Prif Weithredwr fod sgyrsiau wedi cychwyn gyda rheoleiddwyr gan gynnwys gyda rheoleiddwyr ymarfer proffesiynol unigol ac y byddai prosesau priodol yn cael eu dilyn ar bob mater o'r fath, pe byddai angen cymryd camau rheoleiddiol neu unrhyw gamau eraill. Nodwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn darparu monitro misol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar weithredu rhan 1 a rhan 2 adolygiad RCS. Ailadroddodd y Prif Weithredwr ei hymrwymiad i wella a chydnabu a mynegodd gefnogaeth i'r clinigwyr ac aelodau tîm amlddisgyblaethol ymroddedig a gweithgar sydd wedi gweithio'n ddiflino o fewn y gwasanaeth wrth i waith gwella barhau. **22/51.7** Roedd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cydnabod bod ail ran adolygiad RCS yn disgrifio gwasanaeth clinigol nad yw bob amser wedi trin cleifion mewn ffordd sy'n dderbyniol neu'n gywir. Ymddiheurodd i'r teuluoedd hynny sydd wedi cael eu siomi a mynegodd ymrwymiad diwyro i'r gwaith o sicrhau gwelliannau cynaliadwy, dibynadwy ac effeithiol. **22/51.8** Mynegodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ei dristwch fel meddyg ei hun ynghylch rhai o ganfyddiadau'r adroddiad a gwnaeth sylwadau ar ei farn ei hun am bwysigrwydd safonau proffesiynol da a moeseg. Rhoddodd ymrwymiad personol i wneud y newidiadau y mae'r RCS yn eu hargymell. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd y dylid darllen yr adroddiad ochr yn ochr ag adroddiad RCS cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. **22/51.9** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y byddai'n crynhoi sut y bydd gwelliannau i ddiogelwch, ansawdd a phrofiad cleifion ar gyfer pob claf a oedd yn ymddiried eu gofal i wasanaeth fasgwlaidd BIPBC yn cael eu datblygu. Pwysleisiodd fod yr RCS yn yr adolygiad yn cefnogi'r model gofal rhwydwaith a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw argymhelliad wedi'i dderbyn ynghylch rhoi'r gorau i wasanaethau oherwydd pryderon diogelwch. **22/51.10** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y byddai'r cynllun gwella gwasanaethau fasgwlaidd presennol yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Fasgwlaidd a gafodd ei adfywio'n ddiweddar. Nodwyd bod y grŵp hwn eisoes yn ysgogi rhai gwelliannau gan gynnwys recriwtio uwch staff meddygol, y daeth un ohonynt i'w swydd ddiwedd y mis diwethaf. Nodwyd bod tri meddyg arbenigol arall wedi'u penodi ac y byddent yn cychwyn ar eu contractau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Nododd y Bwrdd y theatr fasgwlar hybrid 'o'r radd flaenaf' ar safle Ysbyty Glan Clwyd ac agweddau cadarnhaol eraill ar y gwasanaeth clinigol,	

gan gynnwys cymorth radiolegwyr ymyriadol.

22/51.11 Amlygodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y pwyntiau isod a wnaed ar unwaith neu yr ymrwymwyd iddynt ar ôl derbyn yr adolygiad RCS diweddaraf:

- Creu'r Panel Ansawdd Fasgwlaidd a fydd â Chadeirydd allanol. Byddai'r unigolyn yn cael ei gadarnhau o fewn y dyddiau nesaf.

- Cynhelir adolygiad o'r holl achosion sydd wedi'u cynnwys yn ail adroddiad RCS a chysylltir â chleifion a theuluoedd i ystyried a oes angen unrhyw ofal neu gamau clinigol pellach i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd gonestrwydd. Nodwyd na ellir diystyru pwysigrwydd yr ymarfer hwn.

- Mae gwaith brys eisoes ar y gweill gydag adolygiad wythnosol o nodiadau yn y gwasanaeth fasgwlaidd gyda chylch gwella yn ei le.

- Mae hyfforddiant yn ei le i sicrhau bod safonau caniatâd yn cael eu deall yn dda a'u bod o'r safon ddisgwyliedig.

- Mae gweithio agosach gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Lerpwl wedi dechrau i gefnogi gwneud penderfyniadau'r tîm amlddisgyblaethol fel yr argymhellir yn adroddiad RCS. Bydd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio ochr yn ochr â chlinigwyr allanol i wella ansawdd gofal, gan adeiladu ar drafodaethau a oedd ar y gweill cyn derbyn yr adroddiad diweddaraf.

- Mae newidiadau wedi eu gwneud i gefnogi capasiti arweinyddiaeth y gwasanaeth gyda chynlluniau ychwanegol mewn lle i gryfhau'r arweinyddiaeth ymhellach ac i roi sicrwydd mewnol ac allanol hyderus bod gwelliannau gwasanaeth yn effeithiol.

- Yr angen i sicrhau bod unigolion, beth bynnag fo'u rôl, wedi gweithio o fewn y safonau proffesiynol a osodwyd gan eu rheolydd proffesiynol. Mae canfyddiadau'r adroddiad, a chamau gweithredu cyfredol, wedi'u trafod yn fanwl gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

22/51.12 Cydnabu'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr angen a chydnabu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ystyried unrhyw wersi o'r adolygiad o'r gwasanaeth fasgwlaidd, o ran gweithredu'r broses o ad-drefnu gwasanaethau clinigol ac ar gyfer ein timau arweinyddiaeth a chlinigol. o ran cadw nodiadau, caniatâd a chyfathrebu â chleifion

22/51.13 Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, er gwaethaf y nodiadau o rybudd a rannwyd, ei fod yn cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad cymaint o staff BIPBC i ddatblygu'r gwasanaeth fasgwlaidd, gan nodi bod straeon cleifion yn cael eu clywed bob mis yn y Grŵp Llywio Fasgwlaidd yn rhannu'r wybodaeth. ymrwymiad a thosturi staff.

22/51.14 Mynegodd Aelod Annibynnol bryder y nodwyd yn y papurau cefndir

blaenorol yr oedd y Bwrdd wedi'u derbyn, fod yna gapasiti a gallu i sefydlu'r cyfleuster yn Ysbyty Glan Clwyd ond ei bod yn ymddangos nad oedd y naill na'r llall yn eu lle. **22/51.15** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod popeth posibl yn cael ei wneud i recriwtio a chadw'r capasiti a'r gallu priodol sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth ac y byddai unrhyw broblemau gyda hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor QSE a'r Bwrdd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiad dysgu annibynnol wedi'i gomisiynu fel y gallai'r sefydliad ddysgu o'r ad-drefnu gwasanaeth hwn a chymhwyso i unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol. **22/51.16** Cydnabu'r Cadeirydd, er bod y RCS wedi tanysgrifennu'r model gwasanaeth fel y'i gweithredwyd, fodd bynnag holodd a oedd y Tîm Gweithredol yn teimlo'n hyderus ei fod yn parhau i fod yr un priodol. **22/51.15** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol mai'r 'model canolbwynt ac adenydd' oedd yr un cywir yn ei farn ef a nododd fod RCS a chydweithwyr allanol eraill ag arbenigedd yn y maes hwn wedi cytuno'n unfrydol â'r farn hon. Roedd yr RCS wedi awgrymu cael arbenigedd allanol i gefnogi datblygiad y tîm amlddisgyblaethol a mynegodd ddiolch diffuant i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Lerpwl am ddarparu'r cymorth hwn. **22/51.16** Cafwyd trafodaeth am amserlenni recriwtio ar gyfer staffio llawn i gyflwyno'r model. Amlygwyd yr heriau recriwtio cenedlaethol ond cytunodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Nododd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl i hyn fod yn rhan o'r diweddariad rheolaidd y byddai'r Bwrdd yn ei dderbyn. **22/51.17** Diolchodd Aelod Annibynnol i'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol am eu sylwadau a gofynnodd sut yr oeddent yn bwriadu hysbysu'r Bwrdd am unrhyw gynnydd neu unrhyw ddirywiad. **22/51.18** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y byddai'r Grŵp Llywio yn adolygu'r mecanweithiau rheoli a gefnogir gan yr arolygiaeth allanol a ddisgrifiwyd yn gynharach ac y byddai hyn yn sail i adrodd pellach. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai heriau yn parhau o fewn y gwasanaethau hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai adolygiad o'r ffordd y mae ymweliadau safle'r Bwrdd i wardiau yn cael eu cyfeirio a'u cynnal yn cael ei gynnal ac y byddai adolygiad o'r rhaglen archwilio clinigol yn cyd-fynd ag ef er mwyn sicrhau bod cysylltiad cryfach â gwasanaethau megis fasgwlaidd. **22/51.19** Nododd yr Is-Gadeirydd, er gwaethaf adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor QSE, ei bod yn destun pryder i fod yn y sefyllfa bresennol a gofynnodd beth fyddai'n wahanol y tro hwn a holodd a allai gwasanaethau eraill fod yn yr un sefyllfa. Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, gyda thriongli'r gwahanol ffynonellau data, y byddai'n cymryd peth amser i gael darlun llawnach. Bydd cynllun archwilio clinigol blynyddol a oedd yn cynnwys adolygiad o nodiadau clinigol a chaniatâd yn cefnogi hyn ac yn sicrhau bod y sefydliad yn blaenoriaethu dysgu. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â safonau proffesiynol gydag aelodau'r Bwrdd yn nodi bod safonau a phrosesau proffesiynol yn cael eu dilyn.	

22/51.20 Holodd Aelod Annibynnol pa gymorth y mae'r Tîm Gwasanaeth Fasgwlaidd yn ei gael i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Amlygodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y pecynnau safonol proffesiynol a'r gweithdai oedd yn cael eu cynnig ond bod angen mwy o gymorth bugeiliol ac y byddai'n cael ei ddarparu. Nodwyd bod staff yn mynychu cyfarfod yn fuan i drafod y mater hwn. **22/51.21** Cafwyd trafodaeth ar y Grŵp Llywio Fasgwlaidd a'r strwythur a'r cylch gorchwyl. Nodwyd bod stori claf yn cael ei chlywed ym mhob cyfarfod, bod digwyddiadau datix yn cael eu rhannu, bod cwynion yn cael eu hadolygu, marcwyr ansawdd yn cael eu harchwilio a bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu derbyn gan y ffrydiau gwaith ategol. Mae'r CIC yn bresennol yn ogystal â chynrychiolydd cleifion. Ceir Grŵp Goruchwylio Fasgwlaidd sy'n cynnwys uwch arweinwyr sy'n adolygu manylion gweithredol, yn adolygu'r cynllun gweithredu ac yn monitro recriwtio. Ailddatganwyd y bydd y Panel Fasgwlaidd yn cael ei gadeirio gan gadeirydd allanol. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai ef a'r Is-Gadeirydd gwrdd â'r Cadeirydd Annibynnol cyn eu penodi er mwyn iddynt allu amlygu'r sicrwydd y mae'r Bwrdd yn ei geisio. **22/51.22** Gofynnodd Aelod Annibynnol pa gymorth oedd yn cael ei gynnig i gleifion a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol mai un o'r argymhellion o adroddiad RCS a ffocws allweddol y Panel Ansawdd fyddai cysylltu â pherthnasau, cleifion, gofalwyr y 44 achos yn ogystal â'r 6 achos nad oedd modd adolygu eu nodiadau. Nodwyd bod cwynion a digwyddiadau yn cael eu hadolygu i sicrhau ein bod yn cefnogi teuluoedd a chleifion. Amlygwyd, wrth i’r ddealltwriaeth hon ddatblygu, ei bod yn bosibl iawn y bydd angen inni estyn allan at fwy o grwpiau a theuluoedd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd gonestrwydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r adroddiadau fasgwlaidd i'r Pwyllgor QSE gynnwys sicrwydd ynghylch diogelwch gwasanaethau blaenorol, gwasanaethau presennol ac unrhyw niwed a achosir unwaith y bydd y wybodaeth hon yn hysbys ac yn ddealladwy. **22/51.23** Bu'r Bwrdd yn trafod cyllid a chyllideb yn ymwneud â refeniw staffio a buddsoddiadau cyfalaf. Nodwyd bod elfen fasgwlaidd o fewn yr IMTP a chydnabyddiaeth bod angen buddsoddiad refeniw pellach. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol nad adnoddau fyddai'r ffactor cyfyngu, ond yn hytrach recriwtio a dod o hyd i'r bobl iawn i'w cyflogi. Nodwyd nad oedd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o ystyried bod y theatr hybrid eisoes yn ei lle. Trafododd y Bwrdd y lefel a'r risgiau sy'n gysylltiedig â staff asiantaeth. **22/51.24** Holodd Aelod Annibynnol ynghylch y cyfeiriad at 'ddelweddau coll' yn yr adroddiad. Nodwyd nad oedd y delweddau bob amser ar gael i'r rhai sy'n adolygu'r achosion ond y byddai'r delweddau'n cael eu hadolygu yn y tîm amlddisgyblaethol gyda chymorth Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Lerpwl. **22/51.25** Daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod disgwyliad fel Bwrdd y bydd cynnydd yn cael ei wneud ar fyrder sylweddol. Nodwyd bod y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol wedi dangos yr her briodol i'r gwasanaethau lle bo angen a fyddai'n parhau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n adrodd i'r Gweinidog a'r Bwrdd ar y mater yn fisol.	NL

Heb unrhyw sylwadau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 11:27.	
22/52 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf **22/52.1** Cynhelir Cyfarfod nesaf y Bwrdd Iechyd ar 10 Mawrth 2022	